**Gwella Cartrefi, Newid Bywydau.**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023-24

## Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych




**Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych**
Uned 10 / 11, Ffordd Richard Davies, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy. Sir Ddinbych LL17 0LJ
Phone: 0300 111 2120 Fax: 0300 800 4485 post@gofalathrwsio.com

Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych Registered Charity Number 1171303 Company Number 9827000 Vat Reg No 379 5295 39

Ein bwriad yw: “Galluogi  pobl hŷn neu bobl sy’n agored i niwed i barhau yn gysurus, diogel, cynnes ac annibynnol  yn eu cartrefi eu hunain.”

Ein Gweledigaeth yw i fod yn: “Brif ddarparwr gwasanaethau arloesol sy’n gwella ansawdd bywyd pobl hŷn neu bobl sy’n agored i niwed”. Nod  Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yw galluogi pobl hŷn i barhau i fyw’n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain drwy wella lefelau cyflwr eu tai ac felly eu lefelau cysur, diogelwch, cynhesrwydd a lles.

## Llywodraethiant

Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn is-gwmni i Grŵp Cynefin. Mae’r asiantaeth yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno’r gwasanaeth craidd. Mae wedi’i gofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 ac fel elusen gofrestredig.

Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn helpu perchnogion tai hŷn a thenantiaid preifat i atgyweirio, addasu a chynnal eu cartrefi. Trefnir ymweliadau cartref i drafod anghenion cleientiaid ac er mwyn nodi atgyweiriadau, gwaith cynnal a chadw neu addasiadau priodol, gan gynnig atebion, y costau tebygol a ffynonellau cyllid posibl.

Mae amcanion yr elusen er budd y cyhoedd, rhyddhad angen, salwch, anabledd ac iechyd gwael, yn enwedig, ond nid yn unig, ymhlith y rhai dros drigain oed ac sy’n byw yn ardaloedd Conwy a Sir Ddinbych.

Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd ac yn cydymffurfio â Chôd Llywodraethu CCC.



Gwynne Jones
Cadeirydd



Paul Quirk
Aelod Bwrdd – Annibynnol



Alexander Weick
Aelod Bwrdd – Annibynnol



Clifton Robinson
Is-gadeirydd



Aimee Tomalin
Aelod Bwrdd – Annibynnol
(Ymddiswyddodd yn Tach 2023)



Helen Jones
Ysgrifennydd y Cwmni (Rheolwr Llywodraethu a Chydymffurfio Grŵp Cynefin)



Claire Shiland
Aelod Bwrdd – Annibynnol



Melville Evans
Aelod Bwrdd – Cynrychiolydd Grŵp Cynefin



Gwenan Carrington
Aelod Bwrdd – Annibynnol



Sion Roberts
Aelod Bwrdd – Cynrychiolydd Grŵp Cynefin

# Oeddech chi'n gwybod?

**Edrych yn ôl ar flwyddyn lwyddiannus arall yn darparu gwasanaethau Gofal a Thrwsio ledled Conwy a Sir Ddinbych yn ystod 2023 - 2024.**

**Rhai o'r uchafbwyntiau:-**

- Mae ein his-bennawd "Gwell Cartrefi, Gwell Iechyd" yn cydnabod bod tai gwael yn arwain at ansawdd iechyd gwael ac ansawdd bywyd gwael a'n bod yn gwneud gwahaniaeth trwy gydweithio â phartneriaid i wella bywydau llawer o bobl hŷn neu bobl agored i niwed yn caniatáu iddynt barhau i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain gyda chefnogaeth:-
  - Gweithiwr Achos Craidd / Gwasanaeth Technegol
  - Gwasanaeth Nam ar y Synhwyrau Ymdopi'n Well
  - Rhaglen Addasu Ymateb Cyflym
  - Gwasanaeth Adref o'r Ysbyty i Gartref Iachach
  - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a
  - Gwasanaeth Gwella Tai Gerddi Gwyrdd
- Yn ystod y flwyddyn cyfarfu ein Prif Swyddog â sawl Aelod Seneddol Lleol i drafod gwaith yr Asiantaeth
- Llwyddwyd i recriwtio Aelod Bwrdd i arsylwi a ymunodd â'n Bwrdd ganol y flwyddyn gyda'r bwriad o adolygu'r sefyllfa yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi 2023.
- Llwyddwyd i gyflwyno ein Gwasanaeth Gweithiwr Achos Adref o'r Ysbyty i Gartref Iachach gyda GTAGC – i ddarparu Gwasanaethau Cymorth Diogelwch yn y Cartref.
- Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu Gwasanaeth Gweithiwr Achos Cartref llwyddiannus gan hwyluso rhyddhau diogel o'r ysbyty i gartrefi sydd wedi derbyn addasiadau a gwasanaeth cymorth gwaith achos i helpu i atal aildderbyn i'r ysbyty.
- Cwblhaodd staff ac aelodau'r Bwrdd nifer o gyrsiau hyfforddi yn ystod y flwyddyn, dyma enghreifftiau o'r rhain:-
- Cwblhaodd ein haelodau bwrdd eu hyfforddiant Diogelu a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn llwyddiannus.
- Cwblhaodd yr holl staff eu hyfforddiant Diogelu.
- Llwyddodd Gweithredwyr Atgyweiriadau Bach Gerddi Gwyrdd i gwblhau eu hyfforddiant Codi a Chario, Asbestos, Cymorth Cyntaf Brys, Diogelu a Gweithio ar Uchder.
- Mae cyllid wedi'i ddyrannu gan Wales & West Utilities i ariannu swydd ar secondiad Swyddog Ynni Cartref am ddwy flynedd yn dechrau ym mis Ebrill 2024 drwy'r Cynllun Byw'n hirach nid Oerach.

  Bydd y gwasanaeth hwn yn darparu gwasanaeth gwaith achos, cynghori a chymorth cynhwysfawr ac arbenigol i bobl hŷn sydd mewn tlodi tanwydd neu mewn perygl o fod, neu sydd angen gwella
- Mynychodd staff ac aelodau'r Bwrdd Gynhadledd Gofal a Thrwsio Cymru yng Nghaerdydd Medi 2023 dan gadeiryddiaeth Cadeirydd Asiantaeth Conwy a Sir Ddinbych, Gwynne Jones. Bydd Gwynne Jones yn cadeirio Cynhadledd Gofal a Thrwsio Cymru eto eleni, a gynhelir yn Venue Cymru, Llandudno Medi 2024.
- Cyflwyno Hyfforddiant Asesydd Dibynadwy gan TACT.

  Mae TACT yn bractis dan arweiniad therapyddion galwedigaethol sy'n arbenigo mewn asesu ar gyfer addasiadau cartref. Maent yn ddarparwr achrededig y cymwysterau cenedlaethol Aseswr Dibynadwy ar amrywiaeth o lefelau. Mae TACT hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi, rhaglenni ymwybyddiaeth ac adnoddau asesu ar gyfer amrywiaeth o rolau, o gynghorwyr i therapyddion galwedigaethol. Mae calendr hyfforddi TACT yn cynnwys cyrsiau cyhoeddedig sydd wedi'u cynllunio ar gyfer archebion bach a rhaglenni a gomisiynir yn uniongyrchol gan gynnwys wyneb yn wyneb, e-ddysgu a fformatau cyfunol. Mae hyfforddwyr Aseswyr Dibynadwy TACT i gyd yn Therapyddion Galwedigaethol sydd â phrofiad mewn addasiadau cartref.
  Mae TACT wedi ymrwymo i gynnal cyrsiau agored rheolaidd yng Nghymru sy'n cynnwys y cymwysterau Asesydd Dibynadwy mwyaf poblogaidd ac maent yn falch iawn o fod yn bartner gyda dwy asiantaeth Gofal a Thrwsio i gyflwyno'r rhaglen hon. Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych a Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru. Bydd cyrsiau hyfforddi yn cychwyn ym mis Hydref 2024 yn Swyddfeydd Gofal a Thrwsio yn Llanelwy.



# Rydym yn Darparu:

**1** Ein **Gwasanaeth Gofal a Thrwsio Craidd** sy'n cefnogi perchenogion tai sy'n hŷn neu'n fregus i fyw mor annibynnol ag y bo modd yn fwy diogel, cynnes a chyfforddus, trwy ddarparu cyngor ynghylch lles, gwaith trwsio ac addasiadau i'w cartrefi.
Fe'i cyllidir gan Lywodraeth Cymru.

- Dywedodd 96% o bobl bod ansawdd eu bywyd wedi gwella yn dilyn derbyn gwasanaeth Gofal a Thrwsio.

**2** Mae ein gwasanaeth **Ymdopi'n Well** yn rhoi gwybodaeth am ddim a help ymarferol i bobl hŷn, yn enwedig y rhai trwm eu clyw neu wan eu golwg, sydd â dementia neu dim ond os ydych eisiau help i aros gartref yn ddiogel ac ymdopi'n well.

- Cyfeiriwyd 385 o bobl at Ymdopi'n Well yn ystod y flwyddyn, gan gefnogi pobl sydd â nam neu yn drwm eu clyw.

**3** Mae ein **Rhaglen Addasiadau Brys (RhAB)** yn fenter strategol gan Lywodraeth Cymru, i gynorthwyo pobl hŷn i ddychwelyd adref o'r ysbyty a /neu i wneud eu cartrefi'n fwy diogel, trwy ddarparu gwasanaeth trwsio neu addasu cyflym ar raddfa fechan, fel nad oes rhaid iddynt fynd i'r ysbyty.

- Derbyniodd 1,941 o glientiaid grant RhAB i addasu eu cartrefi a'u galluogi i fyw yno'n annibynnol.
- Gwnaed gwaith i 80% o gleientiaid RhAB i helpu i beri bod llai o bobl yn cael codwm.

**4** Gall cartrefi ddirywio'n hawdd wrth i lefelau incwm leihau, ac mae ein **Gwasanaeth Gwella Cartrefi Gerddi Gwyrdd** yn un o brif ddarparwyr gwasanaethau sy'n gwella ansawdd bywyd pobl hŷn neu fregus.
Fe'i darperir gan dîm sy'n gwneud gwaith preifat, addasiadau, mân waith trwsio yn y cartref a'r ardd, yn gosod ystafelloedd ymolchi/ystafelloedd gwlyb ac yn gwneud gwaith saer sgiliedig.

Maent wedi eu hyfforddi i adnabod anghenion cleientiaid a'u hatgyfeirio am gymorth gan ein gwasanaethau Craidd neu RhAB.

- Cwblhawyd 37 o dasgau addasu ystafelloedd ymolchi gan Gerddi Gwyrdd.
- Cwblhawyd 371 o dasgau Gerddi Gwyrdd oedd wedi eu cyllido yn breifat gyda chyfanswm cost o £384.833

**5** Mae ein **Gwasanaeth Adre o'r Ysbyty** yn sicrhau bod addasiadau hanfodol yn cael eu gwneud i gartref claf fel y gellir ei ryddhau'n ddiogel o'r ysbyty, **gan arbed llawer o nosweithiau gwely am gost o £300** i'n partner, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae pob **£1 sy'n cael ei wario gan GThCSDd yn arbed £7.50 mewn costau iechyd –** 300 i 400 o welyau bob nos mewn ysbyty, er enghraifft.

- Derbyniwyd 518 o gyfeiriadau Adre o'r Ysbyty.
- Roedd 450 o'r cyfeiriadau yn cefnogi dychwelyd o'r ysbyty yn saff.



# ADRE O'R YSBYTY

Cwblhawyd 450 o welliannau i gartrefi cleifion

Nododd 366 fod y gwasanaeth wedi eu helpu i ddychwelyd adref i fyw yn annibynnol

518 o gleifion wedi eu helpu

Galluogodd y cynllun arbediad o 2,700 o ddyddiau gwely

Cynhaliwyd 467 gwiriad Cartrefi Iach

Hawliwyd £414,616 o fudd-daliadau lles ar ran cleifion

# ADBORTH CLEIENTIAID

"Mae'r rheilen rydych chi wedi'i gosod yn ei lle wedi gwneud byd o wahaniaeth, mae'r basn ymolchi bellach yn sownd. Roedd y bobl a ddaeth i mewn i fy nghartref yn fendigedig, ni allaf ddiolch digon i bawb."

"Cafodd trawsnewidiad yr ystafell ymolchi'i wneud gan weithwyr proffesiynol ac ystyriol a wnaeth waith gwych ac mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'n bywydau."

"Ni allaf ddweud wrthych y gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i fy ngwraig wrth fynd i mewn ac allan o'r tŷ. Ni allaf ganmol digon ar Gofal a Thrwsio."

"Mae eich Swyddog wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefyllfa anodd a thrist iawn. Rydym i gyd yn ddiolchgar iawn."

"Bydd y Lwfans Gweini a gefais yn help mawr wrth i fy iechyd ddirywio. Gallaf gael y gwres ymlaen mwy heb boeni am y costau ychwanegol. Nawr fy mod yn derbyn Lwfans Gweini mae gennyf gap ar fy nhaliadau dŵr hefyd, felly fe weithiodd y cyfan yn dda."

"Nid oeddwn hyd yn oed yn gwybod bod y gwasanaeth hwn yn bodoli ac ni allaf ddiolch digon i chi i gyd."

"Mae wal yr ardd flaen wedi'i chwblhau, gwnaeth waith ard-derchog, mae'n grefftwr gwir-ioneddol. Gweithiodd yn galed iawn drwy'r amser yr oedd yma a gwnaeth waith i safon uchel."

# Gwell Cartrefi, Gwell Iechyd

## Helpu pobl hŷn i barhau'n ddiogel, yn gynnes ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain

**Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych**
**Conwy and Denbighshire Care & Repair**

Ffoniwch ni ar
0300 111 2120

Dywedodd **96 %** o gleientiaid eu bod yn teimlo yn fwy annibynnol a hyderus o ganlyniad i wasanaeth Gofal a Thrwsio

**20 diwrnod**
Ar gyfartaledd, caiff gwaith y Rhaglen Addasiadau Brys ei gyflawni o fewn

**£1** → **£7.50**
Am bob £1 a wariwyd ar y Rhaglen Addasiadau Brys, arbedwyd £7.50 ar gyllidebau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Rydym wedi hwyluso gwaith trwsio ac addasiadau preifat gwerth £384,833

**£1,494,543**
Helpu **288** o bobl i gynyddu eu hincwm a oedd werth £1,494,543 y flwyddyn

**1,833**
Nifer o bobl rydym wedi eu helpu

**79**
Oedran cyfartalog y bobl a gynorthwywyd

**99 %** o glientiaid yn fodlon iawn â'r gwasanaethau a ddarparwyd gan Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych

**97 %** a fyddai'n argymell gwasanaeth Gofal a Thrwsio i eraill

**80 %**
Fe wnaethom helpu 80% o bobl gyda gwaith i geisio lleihau codymau

**194 1**
Nifer o bobl a gafodd gymorth gyda'r grant Rhaglen Addasiadau Brys i addasu eu cartrefi i'w galluogi i barhau i fyw'n annibynnol

**Ffigyrau 2023/2024 ar gyfer Gwasanaeth HIA Sir Ddinbych a'r Rhaglen Addasiadau Brys**

GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
Grŵp Cynefin – Mwy na thai • More than housing
Care & Repair Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub – Fire and Rescue Service
Noddir gan Lywodraeth Cymru – Sponsored by Welsh Government

# Y Gwasanaeth Tai i Bobl Hŷn

## Helpu pobl hŷn i barhau'n ddiogel, yn gynnes ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain

**Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych**
**Conwy and Denbighshire Care & Repair**

Ffoniwch ni ar
0300 111 2120

535 Cyfanswm nifer o Wiriadau Diogelwch Tan yn y Cartref

**385** Nifer y cyfeiriadau Ymdopi'n Well yn cefnogi pobl â nam golwg neu glyw.

"Doeddwn ddim yn ymwybodol bod y gwasanaeth yn bodoli. Ni allaf ddiolch digon i chi."

"Gweithwyr proffesiynol ac ystyriol sydd wedi gwneud gwaith gwych yn yr ystafell ymolchi. Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'n bywydau."

"Ni allaf ganmol digon, mae wedi gwneud gymant o wahaniaeth i'm gwraig wrth fynd i mewn ac allan o'r ty."

"Bydd y Lwfans Gweini a dderbyniais yn gwneud gwahaniaeth mawr wrth i'm iechyd ddirywio. Gallaf ddefnyddio mwy ar y gwres heb boeni am y gost ychwanegol."

"Mae'r rheilen gafodd ei gosod wedi gwneud byd o wahaniaeth. Mae'r basn ymolchi rwan yn ddiogel, ni allaf ddiolch digon i chi."

**518**
Nifer y cyfeiriadau Ysbyty i'r Cartref a dderbyniwyd. Roedd 450 ohonynt yn addasiadau i alluogi rhyddhad diogel o'r ysbyty a arweiniodd at arbediad

o 2,700 o ddyddiau gwlau.

37 Cyfanswm addasiadau ystafelloedd ymolchi a gwblhawyd gan Gerddi Gwyrdd

763 Cyfanswm gwaith addasiadau a gwblhawyd ac eithrio gwaith addasiadau brys

**371**
Nifer y gwaith preifat a gwblhawyd gan Gerddi Gwyrdd gwerth £384,833

**Ffigyrau 2023/2024 ar gyfer Gwasanaethau Gwelliannau i'r Cartref Gerddi Gwyrdd Conwy a Sir Ddinbych**

Gerddi Gwyrdd Home Improvement Services
Conwy – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy County Borough Council
Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
DVSC CGGSDd
Care & Repair Cymru
Noddir gan Lywodraeth Cymru – Sponsored by Welsh Government

# Perfformiad Ariannol

| | 2023/24<br>£ | 2022/23<br>£ |
|---|---|---|
| **CRYNODEB O'R CYFRIF INCWM A GWARIANT** | | |
| Incwm | 1,549,621 | 1,500,759 |
| Gwariant | (1,473,713) | (1,395,007) |
| **Gwarged / Ddiffyg am y flwyddyn** | 75,908 | 105,752 |

| | 2023/24<br>£ | 2022/23<br>£ |
|---|---|---|
| **CRYNODEB O'R FANTOLEN** | | |
| Asedau sefydlog | 13,410 | 15,265 |
| Asedau cyfredol | 942,994 | 875,426 |
| Rhwymedigaethau cyfredol | (92,454) | (102,649) |
| **Asedau net** | 863,950 | 788,042 |
| Cronfa Refeniw | 842,954 | 763,897 |
| Cronfa wedi ei gyfyngu | 20,996 | 24,145 |
| **Cyfanswm cronfeydd** | 863,950 | 788,042 |